## ANECS A: Cofnod o Benderfyniad, Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth, Seilwaith yr Economi.

## I’w ddefnyddio gyda phrosiectau sy'n berthnasol i Anecs II yn unig

| | | |
|---|---|---|
| **Enw’r prosiect:** A55 / A470 Man Cyfyng Cyfnewidfa Glan Conwy | | **Lleoliad** (yn cynnwys cyfeirnod grid cenedlaethol): A55 / A470 Cyfnewidfa Glan Conwy (A55 Cyffordd 19) ger Cyffordd Llandudno. NGR SH 80663 77414. |

**Meini prawf cymwys i brosiect sy'n berthnasol i Anecs II:** (ticiwch y rhai sy'n berthnasol)

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Elfen gwelliant y prosiect yw >1ha | √ | | Lleolir y prosiect mewn ardal 'sensitif' | | | Arall, gyda phosibilrwydd o effaith sylweddol (e.e. ger y safle sensitif) | |

A. **Disgrifiad o'r prosiect:** Mae'r cynllun yn bennaf yn cynnwys arwyddion i gylchfan bresennol, darpariaeth teithio llesol a gwaith cynnal a chadw / adnewyddu seilwaith presennol y priffyrdd (e.e. ail-wynebu; goleuadau; marciau ffordd; ac arwyddion). Mae cydrannau allweddol y cynllun yn cynnwys:

- Arwyddion i slipffordd ymadael tua'r Gorllewin yr A55, slipffordd ymadael tua'r Dwyrain yr A55 a
- breichiau mynediad cylchfan A470 (S), ynghyd â'r arwyddion sy'n gysylltiedig gyda lleoliadau croesfannau twcan;
- Mân ledu, lleol cerbydlon rhan ddeheuol y ffordd gylchredol i gynnwys tair lôn o draffig drwy newid llinell y cwrb. Mae hefyd angen lledu'r gerbydlon ar ffordd gangen yr A470(S) oherwydd culhau lleol sy'n achosi man cyfyng yn y rhwydwaith;
- Adnewyddu goleuadau'r stryd i gyd i'r gylchfan a'r ffyrdd oddi amgylch, yn cynnwys goleuadau troedffordd newydd a rennir drwy ganol y gylchfan;
- Llyfnu ac ail-wynebu cylchfan lawn gan gynnwys silpffyrdd a'r ffyrdd cysylltu oddi amgylch;
- Marciau ffordd i'w hadnewyddu gyda marciau newydd ar gyfer lonydd ychwanegol, llinellau stopio a marcwyr cyrchfan;
- Adeiladu troedffordd / llwybr beiciau y rhennir eu defnydd yng nghanol y gylchfan a gwell darpariaeth wrth ddynesu at y gylchfan, a
- Goleuadau stryd newydd ar gyfer yr holl slipffyrdd ymuno ac ymadael i GYFFORDD 19.

**B. Disgrifiad o'r amgylchedd lleol, yn cynnwys dynodiadau statudol ac anstatudol:**

Lleolir y Cynllun i'r de o Gyffordd Llandudno ar Gyffordd 19 yr A55. Mae'r gyffordd yn gwasanaethu'r A470 sy'n parhau i'r gogledd tuag at Landudno gan hefyd wasanaethu ffyrdd A a B llai fel yr A547 a'r B5381, sy'n gwasanaethu Conwy a Bae Colwyn. Lleolir Cyffordd Llandudno i'r gogledd orllewin o'r gyffordd. Yn bennaf, lleolir unedau busnes ac adwerthu masnachol i'r gogledd orllewin o Gyffordd 19 ac fe gaiff yr anheddau preswyl eu gwahanu gan lein y rheilffordd.

Mae'r tir sy'n amgylchynu'r Cynllun i'r gogledd ddwyrain a'r de a'r de ddwyrain yn bennaf yn amaethyddol sy'n cynnwys caeau mawr agored a wahenir gan wrychoedd a llinellau bychain o goetir. Mae sawl fferm ac eiddo preswyl rhwng Cyffordd Llandudno a Mochdre, gydag ardaloedd mwy dwys, adeiledig yn ymgasglu o gwmpas yr arfordir.

Bydd y gwaith yn cael ei wneud o fewn y pafin, y troedffyrdd a'r stad feddal o fewn terfyn priffordd y gyffordd. Mae'r stad feddal yn cynnwys cymysgfa o laswelltir niwtral sydd wedi'i wella'n rhannol gyda rhannau bychain o blanhigfeydd coetir llydanddail a phrysgwydd dwys. Mae'r safleoedd statudol ac anstatudol a ddynodwyd yn agos at y cynllun yn cynnwys:

- Ardal Cadwraeth Arbennig Coedwigoedd Penrhyn Creuddyn a leolir 1.2km i'r gogledd orllewin
- Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Aber Afon Conwy a leolir 0.8km i'r de orllewin
- Coetir hynafol lled-naturiol Coed Dolwyd a leolir 320m i'r de ddwyrain
- Gwarchodfa Natur/ RSPB Conwy a leolir 440m i'r de orllewin
- Lodge Isaf ym Mryn Eisteddfod, pont fynediad i Fryn Eisteddfod a Ffermdy Brodnant strwythurau rhestredig Gradd II a leolir 450m i'r dwyrain, yn ôl eu trefn

**C. Crynodeb o brif faterion amgylcheddol y prosiect:**

Mae'r gwaith yn lleol a bydd yn digwydd dros gyfnod byr o amser (tri mis). Mae angen clirio llystyfiant i hwyluso'r Cynllun (colofnau golau a throedffordd/ llwybr beiciau) fydd yn effeithio ar y stad feddal. Er hynny, ni fydd y gweithgareddau hyn yn digwydd oddi fewn na ger unrhyw ardaloedd gwarchodedig na dynodedig. Bydd y gwaith yn cael ei wneud yn bennaf yn ystod oriau gwaith y dydd, a gallai derbynyddion sensitif agos at y Cynllun brofi aflonyddu sŵn dros dro. Nid ydym yn darogan y bydd unrhyw effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd, ar yr amod fod mesurau arfer da ac atal llygredd yn eu lle drwy gydol y cyfnod adeiladu.

D. **Manylion graddau y gwaith asesu effaith amgylcheddol a wnaed a chrynodeb o unrhyw ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda'r cyrff ymgynghori statudol**

Cynhaliwyd astudiaethau WelTAG Cam 1, 2 a 3 gan gynnwys gwerthusiad amgylcheddol ansoddol a chymesur. Daeth gwerthusiad WelTAG Cam 3 i'r casgliad bod effaith niwtral ar Ansawdd Aer, Nwyon Tŷ Gwydr, Sŵn, yr Amgylchedd Hanesyddol a'r Amgylchedd Dŵr gydag effeithiau andwyol bach ar y Dirwedd a Bioamrywiaeth.

Aed ati i gerdded dros y safle ym mis Medi 2019 a Mai 2020 a chynigwyd mesurau lliniaru rhagofal ar gyfer ystlumod, adar, ymlusgiaid ac amffibiaid.

Fe gynhelir gwaith monitro/modelu ansawdd aer a sŵn gan gymharu effeithiau sŵn ac ansawdd aer cyn ac ar ôl y gwaith adeiladu. Cadarnhawyd y gwaith monitro ansawdd aer /strategaeth fodelu gyda Chyngor Sir Conwy.

Lluniwyd Cynllun Tirweddu ar gyfer y cynllun sy'n dangos dyluniad y dirwedd a gwelliannau bioamrywiaeth / manteision adfer y gyffordd yn dilyn cwblhau'r prif waith.

Ymgynghorwyd gyda Thîm Amgylchedd Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru a Thîm Cydgysylltu a Chynghori Amgylcheddol Llywodraeth Cymru ar effeithiau’rcynllun a dyluniad /gwelliannau arfaethedig dilynol i adfer y gyffordd yn dilyn cwblhau'r prif waith.

**E. Y penderfyniad, datganiad achos i gefnogi'r penderfyniad hwn yw nad oes angen Asesiad Effaith Amgylcheddol:**

Mae'r gwaith wedi ei gyfyngu i ardaloedd lleol o'r briffordd gyda chyfanswm arwynebedd o tua 4.2ha ac nid yw oddi fewn nac yn gyfagos i ardal sensitif. Bydd mesurau lliniaru safonol yn eu lle yn ystod y gwaith adeiladu. Ni ragwelir y bydd unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol. Ystyrir nad yw'r gwaith angen Asesiad Effaith Amgylcheddol statudol.

**Cyfeirnodau ffeiliau o'r dogfennau cefnogol i gyfeirio atynt yn y dyfodol:**

- A55 / A470 Man Cyfyng Cyfnewidfa Glan Conwy: WelTAG Cam Tri (WSP, Mehefin 2020)
- A55 / A470 Man Cyfyng Cyfnewidfa Glan Conwy: Adroddiad Sgrinio AEA (WSP, Gorffennaf 2020)
- A55 Cyfnewidfa Glan Conwy - WelTAG Cam 3: Asesiad Cyfyngiadau Ecolegol (WSP, Hydref 2019)
- A55 Cyfnewidfa Glan Conwy - WelTAG Cam 3: Asesiad Cyfyngiadau Ecolegol (WSP, Mehefin 2020)
- Lluniad Rhif 70057672-WSP-HLE-GC-DR-03 P03: Cynllun Tirlunio

Ar ôl trafodaethau gydag Ymgynghorydd Amgylcheddol Llywodraeth Cymru/~~yr Asiant Cefnffyrdd~~, rwyf wedi penderfynu bod angen / ~~nad oes angen~~ Asesiad Effaith Amgylcheddol ar gyfer y prosiect yma.

Llofnod Cyfarwyddwr y Prosiect:  M McNamara Dyddiedig: 22/10/20

Awdurdodiad i gyhoeddi Hysbysiad o Benderfyniad:

Llofnod Enwebai Gweinidogion Cymru




Dyddiedig: 29/10/20